



Rhywogaethau a Warchodir yn Sir Ddinbych

Gwybodaeth i Ymgeiswyr Cynllunio

Cynnwys

1. Diben y ddogfen hon.....	2
2. Cefndir	2
3. Rhywogaethau wedi eu hamddiffyn yn Sir Ddinbych	3
4. Crynodeb o Rywogaethau	4
4.1 Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop.....	4
Madfallodd cribog mawr.....	4
Ystlumod.....	4
Dyfrgi	4
Pathew.....	4
Madfall y twyni	4
Llyffant cefnfelyn.....	4
4.2 Llygoden y dŵr	4
4.3 Wiwer goch	5
4.4 Rhywogaethau adar	5
4.5 Ymlusgiaid.....	7
4.6 Amffibiaid	7
4.7 Mochyn daear	8
4.8 Pysgod	8
4.9 Morloi	10
4.10 Ceirw	10
4.11 Planhigion gwyllt.....	10
4.12 Rhywogaethau goresgynnol heb fod yn gynhenid.....	11
4.13 Rhywogaethau eraill a warchodir	11
5. Gwybodaeth bellach a manylion cyswllt.....	11
Rhywogaethau a Warchodir yn Sir Ddinbych	1
Fersion 1: Awst 2014	

1. Diben y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon wedi'i chynllunio i roi gwybodaeth sylfaenol i ymgeiswyr cynllunio am rywogaethau a warchodir yn Sir Ddinbych a'r rhannau perthnasol o ddeddfwriaeth sy'n eu hamddiffyn. Mae'n cynnwys manylion am y diogelwch cyfreithiol a roddir i bob rhywogaeth, gan ganolbwyntio ar y rhywogaethau hynny sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan ddatblygiad yn y sir.

Bydd effeithiau ar rywogaethau a warchodir yn cael eu hystyried pan fydd cais cynllunio yn cael ei asesu gan swyddogion ac aelodau'r Pwyllgor Cynllunio; felly dylid cymryd y wybodaeth yn y ddogfen hon i ystyriaeth wrth gyflwyno cais cynllunio. Mae presenoldeb rhywogaethau a ddiogelir ar neu'n agos i safle, yn y rhan fwyaf o achosion yn atal datblygiad; fodd bynnag, efallai y bydd angen diwygio cynlluniau i sicrhau nad yw'r rhywogaethau gwarchodedig yn cael eu heffeithio yn negyddol yn y tymor hir. Efallai y bydd angen trwydded gan Adnoddau Naturiol Cymru.

2. Cefndir

Mae darpariaethau deddfwriaeth y DU ar gyfer amddiffyn planhigion ac anifeiliaid gwyllt yn bennaf i'w cael yn Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (fel y'i diwygiwyd) 1981. Mae rhai rhywogaethau yn cael eu gwarchod dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd hefyd, wedi dod yn rhan o gyfraith y DU trwy Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'i diwygwyd). Mae rhestr o'r rhywogaethau hyn i'w cael yn atodlenni priodol y ddeddf a'r rheoliadau perthnasol. Mae'r rhai sydd i'w cael yn Sir Ddinbych wedi eu crynhoi yn y tabl isod. At hyn, amddiffynnir rhai rhywogaethau o anifeiliaid gwyllt dan eu darpariaethau cyfreithlon eu hunain, gan gynnwys moch daear, ceirw a morloi. Mae gwaharddiad ar hela morfilod yn holl ddyfroedd y DU.

Mae'r darnau deddfwriaeth hyn yn fras yn gwahardd lladd, anafu, cymryd neu werthu'r anifeiliaid a'r planhigion hynny a restrir yn yr atodlen briodol. Mae hefyd yn drosedd niweidio, dinistrio neu rwystro mynediad i unrhyw lle y mae anifail o'r fath yn ei ddefnyddio ar gyfer lloches, amddiffyniad neu fridio, ac eithrio mewn tŷ anedd, er yn achos yr ystlum mae hyn yn ymestyn i dai anedd, ac eithrio manau byw, a rhaid gofyn am gyngor asiantaeth cadwraeth natur cyn achosi niwed neu rwystro mynediad o'r fath. Yng Nghymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw'r corff, ac mae mwy o wybodaeth ar eu gwefan hwy: www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.

Caiff rhai gweithredoedd a waherddir dan y ddeddfwriaeth gael eu hawdurdodi gyda thrwydded gan yr awdurdod priodol i ddibenion gwyddoniaeth, addysg, cadwraeth a ffotograffiaeth, datblygiad, i amddiffyn iechyd neu ddiogelwch cyhoeddus, i rwystro lledaenu afiechyd neu i rwystro niwed difrifol i dda byw, cnydau, pren sy'n tyfu, eiddo neu bysgodfeydd. Unwaith eto, mae cyngor ar drwyddedu ar gael ar wefan CNC. Nid yw'n drosedd mynd ag anifail a amddiffynnir sydd wedi ei anafu gyda'r diben o ofalu amdano a'i ddychwelyd i'r gwyllr neu i ladd anifail o'r fath os nad oes cyfle rhesymol y bydd yn gwella, ond dylid gofyn am gyngor gan y corff priodol.

3. Rhywogaethau wedi eu hamddiffyn yn Sir Ddinbych

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r prif rywogaethau a amddiffynnir sydd i'w cael yn Sir Ddinbych a'r deddfwriaeth berthnasol.

Amddiffyniad	Rhywogaeth	Pwysigrwydd	Deddfwriaeth allweddol	
Statudol	Madfall cribog mawr	Rhyngwladol	Cyfarwyddyd Cynefinoedd UE; Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'i diwygiwyd); Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd)	
	Ystumod (pob math)			
	Dyfrgi			
	Pathew			
	Madfall y twyni			
	Llyffant cefnfelyn			
	Llyriad nofiadwy (<i>Lurionium natans</i>)			
	Dolffin (pob math)			
	Llamhidydd (pob math)			
	Llygoden y dŵr	Cenedlaethol	Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd)	
	Wiwer goch			
	Bele'r coed			
	Holl ymlusgiaid (neidr ddefaid, madfall, neidr lwyd)			
	Holl amffibiaid (gwerthu yn unig wedi ei wahardd) (llyffant melyn, llyffant du, madfall palfog, madfall llyfn)			
	Tylluan wen			
	Holl adar nythu			
	Mochyn daear			Deddf Amddiffyn Moch Daear 1992
	Ceirw			Deddf Ceirw 1970
	Morloi			Deddf Cadwraeth Morloi 1970
Anstatudol	Rhywogaethau o bwysigrwydd mawr i gadwraeth (rhestr adran 42) – nawr dros 1,000. Mae'r rhestr lawn i'w gweld ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru	Cenedlaethol	Deddf Amgylchedd Anturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006	
	Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (LBAP) rhywogaethau blaenoriaeth lleol – gweler adran LBAP y wefan	Lleol		

4. Crynodeb o Rywogaethau

4.1 Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop

Madfallodd cribog mawr
Ystlumod
Dyfrgi
Pathew
Madfall y twyni
Llyffant cefnfelyn

Mae Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop (EPS) wedi eu hamddiffyn dan reoliad 41 Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'i diwygiwyd) ac Adran 9 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd). Dan y darnau hyn o ddeddfwriaeth, mae'n drosedd:

- Lladd, cymryd neu anafu EPS yn fwriadol;
- Niweidio, dinistrio neu rwystro mynediad i le a ddefnyddir ar gyfer bridio, gorffwys, lloches neu amddiffyn (boed yn bresennol ai peidio) neu aflonyddu ar EPS mewn lle o'r fath;
- Meddiannu neu reoli EPS, yn fyw neu'n farw, neu unrhw ran ohonynt, neu unrhyw beth sydd wedi dod ohonynt;
- Gwerthu, cynnig ar werth, hysbysebu ar werth neu gynnig prynu EPS, neu unrhyw ran ohonynt neu unrhyw beth sydd wedi dod ohonynt;
- Aflonyddu'n fwriadol neu fynd neu ddinistrio wyau EPS yn fwriadol (e.e. madfall cribog mawr)

Mae troseddau dan Adran 9 yn golygu uchafswm cosb o ddirwy hyd at £5,000, carchar am hyd at chwe mis, neu'r ddau, am bob anifail mewn perthynas â'r hwn y cyflawnwyd y drosedd.

Gellir rhoi trwydded er mwyn caniatáu gweithgareddau a fyddai'n golygu trosedd dan y ddeddfwriaeth. Rhoddir rhai i ddibenion penodol gan gynnwys astudiaeth wyddonol, ffotograffiaeth, rheoli cadwraeth a datblygu.

4.2 Llygoden y dŵr

Mae llygoden y dŵr a'i chynefin yn cael amddiffyniad dan Adran 9 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd). Dan y ddeddfwriaeth, mae'n drosedd:

- Lladd, cymryd neu anafu llygoden y dŵr yn fwriadol;
- Meddiannu neu reoli llygoden y dŵr, yn fyw neu'n farw, neu unrhyw ran ohoni, neu unrhyw beth sydd wedi dod ohoni;
- Niweidio, dinistrio neu rwystro mynediad i le a ddefnyddir gan lygoden y dŵr ar gyfer lloches neu amddiffyn;
- Aflonyddu ar lygoden y dŵr yn fwriadol neu'n ddiotal tra mae mewn strwythur neu le y mae'n ei ddefnyddio ar gyfer lloches neu amddiffyn;
- Gwerthu, cynnig ar werth, hysbysebu ar werth, neu fod â llygod y dŵr yn eich meddiant neu eu cludo i ddibenion gwerthu, yn fyw neu'n farw, neu unrhyw ran o lygoden y dŵr neu unrhyw beth sydd wedi dod ohono;

- Cyhoeddi unrhyw hysbyseb neu achosi i hysbyseb gael ei gyhoeddi, sy'n debygol o gael ei ddeall fel hysbyseb sy'n cyfleu bod person yn prynu neu'n gwerthu, neu'n bwriadu prynu neu werthu, unrhyw rai o'r uchod.

Mae troseddau dan adran 9 yn golygu uchafswm cosb o ddirwy hyd at £5,000, carchar am hyd at chwe mis, neu'r ddau, am bob anifail mewn perthynas â'r hwn y cyflawnwyd y drosedd.

4.3 Wiwer goch

Mae'r wiwer goch a'i chynefin hefyd wedi ei hamddiffyn dan Adran 9 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd). Dan y ddeddfwriaeth mae'n drosedd:

- Lladd, anafu neu gymryd yn fwriadol wiwer goch;
- anafu neu ddinistrio yn fwriadol neu'n ddiotal unrhyw strwythur neu le y mae'r wiwer goch yn ei ddefnyddio ar gyfer amddiffyn neu loches, neu aflonyddu ar wiwer goch pan fydd mewn lle o'r fath;
- meddiannu wiwer goch fyw neu farw, neu unrhyw ran o wiwer goch, oni ellir dangos bod yr anifail wedi ei gymryd yn gyfreithlon;
- gwerthu neu gynnig ar werth gwiwer goch wyllt neu unrhyw ran o wiwer goch wyllt.

Dan adran 11 y Ddeddf, mae hefyd yn anghyfreithlon:

- Gosod magl, rhwyden, dyfais drydanol i ladd neu daro'n anymwybodol neu ddefnyddio unrhyw sylwedd gwenwynig neu bensyfrdanol; defnyddio abwyd, nwy neu fwg, bwa neu groesfwa, ffrwydron, arfau awtomatig neu gerbydau mecanyddol sydd o natur o'r fath ac wedi eu doddi mewn lle fel yr ystyrir anaf corfforol i wiwer goch.

Mae troseddau dan adran 9 yn golygu uchafswm cosb o ddirwy hyd at £5,000, carchar am hyd at chwe mis, neu'r ddau, am bob anifail mewn perthynas â'r hwn y cyflawnwyd y drosedd.

4.4 Rhywogaethau adar

Mae holl adar gwyllt, eu wyau a'u nythod yn cael eu hamddiffyn dan adran 1 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. At hyn, mae rhai rhywogaethau'n cael amddiffyniad ychwanegol dan Atodlen 1 y ddeddf oherwydd eu prinder. Dan y ddeddf, mae'n drosedd:

- Lladd, anafu, cymryd neu feddiannu yn fwriadol unrhyw aderyn gwyllt – hyd yn oed i roi modrwy arnynt;
- Defnyddio dulliau creulon neu ddiwahân o ladd neu ddal adar gwyllt;
- Cymryd, niweidio neu ddinistrio nyth neu wyau adar gwyllt (mae nythod gwalch y pysgod wedi eu hamddiffyn trwy gydol y flwyddyn)
- Gwerthu neu arddangos mewn cystadleuaeth unrhyw aderyn gwyllt (nid yw hyn yn cynnwys rhai rhywogaethau os yw wedi ei fagu mewn caethiwed a'i fodrwyo);
- Gwerthu unrhyw aderyn gwyllt marw (ac eithrio rhai adar hela yn y tymor);
- gwerthu adar unrhyw rywogaeth Prydeinig aderyn gwyllt;
- yn fwriadol neu'n ddiotal aflonyddu ar unrhyw aderyn gwyllt a amddiffynnir (Atodlen 1) pan mae'n adeiladu nyth, nythu neu aflonyddu ar adar ifanc dibynnol.

Mae eithriadau i'r rhain weithiau os yw aderyn yn wael neu wedi ei anafu. Gellir mynd â'r aderyn gyda'r bwriad o'i ryddhau pan yn ffit neu i'w ladd os na fydd yn debygol o wella. Hefyd lle mae trosedd yn anfwriadol o ganlyniad i weithrediad cyfreithlon na ellid ei osgoi yn rhesymol.

Gellir cymryd neu ladd rhai adar y tu allan i'r tymor caeëdig:

Hwyaden gopog	Gwydd Canada
Hwyaden wyllt	Gwydd wyllt
Hwyaden gynffonfain	Gwydd droedbinc
Hwyaden bengoch	Gwydd gwyndorch
Hwyad lydanbig	Cwtiar
Corhwyad	Iar ddwr
Chwiwell	Cwtiad aur
Corshwyaden wyllt	Gïach
Hwyaden llygad aur	Cyffyllog

Gellir hefyd rhoi trwydded gan Lywodraeth Cymru sy'n caniatáu lladd neu gymryd rhai adar, eu nythod a'r adar ifanc er mwyn rhwystro niwed difrifol i amaethyddiaeth neu i warchod diogelwch neu iechyd cyhoeddus, neu i warchod adar gwyllt:

Bran dyddyn	Pioden
Gwylan gefnddu fwyaf	Aderyn to
Ydfran	Jac-do
Sgrech y coed	Drudwy
Gwylan gefnddu leiaf	Gwylan y penwaig
Ysguthan	Turtur dorchog
Colomen wyllt	

Mae trwyddedau hefyd ar gael gan CNC i ymgymryd â gweithgareddau a fyddai fel arall yn anghyfreithlon, gan gynnwys aflonyddu ar adar i ddibenion astudiaeth wyddonol, ffotograffiaeth, rheoli cadwraeth a rhwystro niwed i gnydau ac eiddo.

Mae'r adar gwyllt canlynol yn cael amddiffyniad arbennig bob amser:

Pig	Hebog	Cwtyn hirgoes	Môr-wennol fach
Rhegen fraith	Tylluan wen	Adeinddu	
Boda'r mêl	Gylfinir y garreg	Bronlas	Hwyaden gynffon wennol
Titw barfog	Copog	Bronrhuddyn	Telur y gors
Pibydd Temminck	Gwenynysor	Telur Cetti	Gwylan môr y canoldir
Cwtiad Caint	Hwyaden felfedog	Brân goesgoch	Gwalch bach
Alarch Bewick	Glas y dorlan	Bras Ffrainc	Gwalch y pysgod
Coegyflfinir	Aderyn y bwn	Sofliar	Hebog tramor
Bras y Gogledd	Eryr tinwyn	Môr-hwyaden ddu	Crëyr porffor
Rhostog cynffonddu	Pedryn cynffon fforchog	Rhegen yr yd	Pibydd du
Alarch y gogledd	Tingoch du	Titw cribog	Cigydd cefngoch
Aderyn y bwn lleiaf	Ehedydd y coed	Croesbig (pob math)	Barcut
Gwyach glustiog	Gwylan fach	Telur Dartford	Pibydd llydandroed
Pibydd y graean	Môr-wennol ddu		
Cwtiad torchog	Aderyn gyddfgam		

	gyddfgoch
Trochwyr (pob math)	Asgell goch
Hutan	Môr-wennol wridog
Caseg y ddrycin	Colomen grech
Dryw penfflamgoch	Telor Savi
Hwyaden adfain	Gylfinbraff ysgarlad
Eryr aur	Hwyaden benddu

Euryn	Caneri gwyllt
Gosog	Ehedydd y traeth
Pibydd gwyrdd	Dringwr troedfyr
Pibydd coeswerdd	Gwyach gorniog
Hebig chwyldro	Bras yr eira
Boda (pob math)	Tylluan yr eira
Llydanbig	

Mae rhai adar gwyllt yn cael eu hamddiffyn yn arbennig yn ystod y tymor caeëdig:

Hwyaden llygad aur
Gwydd wyllt (yn yr Hebrides Allanol, Caithness, Sutherland a Wester Ross yn unig)
Hwyaden gynffonfain

4.5 Ymlusgiaid

Madfall
Gwiber
Llyngyr Daear
Neidr y Glaswellt

Mae holl rywogaethau ymlusgiaid Prydain wedi eu hamddiffyn yn erbyn lladd bwriadol, niwed neu werthu dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd). Mae madfall y twyni a'r neidr lefn yn cael amddiffyniad uwch dan Reoliad 41 Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'i diwygiwyd) – gweler uchod. (Noder nad yw'r neidr lefn i'w chael yn Sir Ddinbych)

Mae eithriadau'n bosibl os yw'r anifail yn wael neu wedi ei anafu ac wedi ei gymryd er mwyn ei drin gyda'r bwriad o'i ryddhau gan fydd yn well neu lle caiff ei ladd oherwydd anaf neu salwch difrifol neu lle nad oes modd osgoi lladd ac yn anfwriadol oherwydd camau cyfreithiol.

4.6 Amffibiaid

Broga
Llyffant Du
Madfall Ddŵr Lefn
Madfall Ddŵr Palfaidd

Mae holl rywogaethau amffibiaid Prydain wedi eu hamddiffyn yn erbyn lladd bwriadol, niwed neu werthu dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd). Mae'r madfall cribog mawr yn cael amddiffyniad uwch dan Reoliad 41 Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'i diwygiwyd) – gweler uchod.

4.7 Mochyn daear

Amddiffynnir dan Ddeddf Amddiffyn Moch Daear 1992 ac wedi eu cynnwys yn Atodlen 6 Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd). Mae'r ddeddfwriaeth yn amddiffyn moch daear yn erbyn niwed neu anaf bwriadol gan ei gwneud yn drosedd:

- lladd, anafu neu gymryd neu geisio lladd, anafu neu gymryd mochyn daear;
- meddiannu neu reoli urnhyw fochyn daear marw neu unrhyw ran o fochyn daear;
- camdrin mochyn daear yn greulon, defnyddio gefeiliau mochyn daear, cloddio am fochyn daear neu ddefnyddio arfau calibr bach i ladd neu gymryd mochyn daear;
- gwerthu neu gynnig gwerthu mochyn daear byw;
- ymyrryd gyda gwal trwy ei niweidio neu ei dinistrio;
- rhwystro mynediad i wâl mochyn daear;
- aflonyddu ar fochyn daear pan fydd yn ei wâl;
- cael mochyn daear byw yn eich meddiant neu reolaeth;
- marcio neu ddodi unrhyw ddyfais ar fochyn daear.

Mae eithriadau yn bosibl lle mae mochyn daear anabl wedi ei gymryd er mwyn ei drin, lle caiff ei ladd oherwydd anaf difrifol neu salwch neu lle na ellir osgoi lladd o ganlyniad anfwriadol i gamau cyfreithiol.

Mae cosbau yn cynnwys dirwyon hyd at £5,000, ynghyd â chwe mis yn y carchar am bob achos o ymyrryd gyda gwal mochyn daear, anaf neu farwolaeth mochyn daear.

Mae gwaith heb drwydded a fydd yn aflonyddu ar foch daear pan fyddant yn y wâl yn anghyfreithlon. Gall aflonyddu ddigwydd heb ymyrraeth uniongyrchol neu niwed i wâl. Yn gyffredinol, mae'r gweithgareddau canlynol yn debygol o fod angen trwydded:

- defnyddio peiriannau trymion neu beiriannau symud pridd arwyddocaol o fewn 30m i wâl;
- defnyddio peiriannau ysgafnach (fel rheol unrhyw gerbydau ag olwynion) o fewn 20m o wâl;
- unrhyw gloddio, defnyddio llif gadwyn neu glirio prysgwydd o fewn 10m i wâl.

4.8 Pysgod

Mae rhai pysgod yn cael yr un amddiffyniad â mamaliaid dan Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd). Mae cyfreithiau pellach yn delio â physgod hela megis eog, sewin, brithyll a phenllwyd. Dan y cyfreithiau hyn mae'n drosedd:

- dwyn y pysgod hyn;
- tynnu pysgod hela o ddyfroedd stocio

Mae troseddau eraill megis potsio wedi eu nodi yn Neddf Pysgodfeydd Eog a Dŵr Croyw a'r Ddeddf Eog a'r Ddeddf Ladrata.

Mae'r rhywogaethau canlynol yn cael amddiffyniad llawn dan Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981:

Heulforgi
Llofen

Gobi Couch
Stwrsiwn (hefyd wedi ei amddiffyn dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a rhywogaethau 2010)
Gwyniad
Gwyniad (<i>coregonus</i>)
Gwyniad mawr y môr

Lle mae'n drosedd:

- lladd yn fwriadol, cymryd neu anafu'r pysgod hyn;
- niweidio, dinistrio neu rwystro strwythur neu le y mae'r pysgod hyn yn ei ddefnyddio i fridio neu lochesu, neu aflonyddu ar bysgod yn y fath le;
- meddiannu neu reoli'r pysgod hyn yn fyw neu'n farw, neu unrhyw ran ohonynt neu unrhyw beth sydd wedi dod ohonynt;
- gwerthu, cynnig ar werth, hysbysebu ar werth neu gynnig prynu unrhyw rai o'r pysgod hyn neu unrhyw ddarn ohonynt neu unrhyw beth sydd wedi dod ohonynt;
- aflonyddu'n fwriadol neu gymryd neu ddinistrio'n fwriadol wyau pysgod sydd wedi eu rhestru yn y rheoliadau.

At hyn, mae gwangen allis wedi eu hamddiffyn rhag cael eu lladd neu eu niweidio neu eu cymryd, a niweidio neu ddinistrio eu lloches a'u hamddiffyniad yn unig, ac mae gwangen twaite wedi eu hamddiffyn rhag niweidio neu ddinistrio eu lloches yn unig.

Mae eithriadau'n bosibl os yw'r anifail yn wael neu wedi ei anafu ac wedi ei gymryd er mwyn ei drin gyda'r bwriad o'i ryddhau gan fydd yn well neu lle caiff ei ladd oherwydd anaf neu salwch difrifol neu lle nad oes modd osgoi lladd yn anfwriadol oherwydd camau cyfreithiol.

Dan Ddeddf Pysgodfeydd Eog a Dŵr Croyw, mae'n drosedd:

- defnyddio neu feddiannu unrhyw offerynnau gwaharddedig gan gynnwys arfau tanio, byrddau dyfrgi, llinellau gosod, tryferi neu olau, neu fwriadu eu defnyddio;
- defnyddio unrhyw leithion;
- prynu, gwerthu, arddangos ar werth neu feddiannu unrhyw leithion brithyll neu eog;
- cymryd, lladd neu anafu unrhyw eog neu frithyll anaeddfed;
- aflonyddu'n fwriadol ar unrhyw welyau silio pysgod;
- rhoi unrhyw hylif neu solet yn y dŵr er mwyn anafu'r pysgod;
- defnyddio neu feddiannu ar neu yn cyffinio unrhyw ddyfroedd unrhyw ffrwydron neu ddyfais drydanol gyda'r bwriad o gymryd neu ddinistrio pysgod;
- rhwystro llwybr pysgod;
- cymryd neu ladd pysgod yn ystod y tymhorau caeëdig;
- pysgota am neu gymryd pysgod heb drwydded neu'n groes i amodau trwydded;
- meddu ar unrhyw beth gyda'r bwriad o gymryd neu ladd pysgod ac eithrio un a awdurdodir gan drwydded;
- cyflwyno pysgod neu rawn pysgod mewn dŵr mewndirol heb ganiatâd CNC.

Gall dulliau a chamau gwaharddedig fod yn gyfreithlon os cânt eu gwneud gydag awdurdod ysgrifenedig CNC.

Dan y Ddeddf Eog 1986 mae'n drosedd:

- meddu ar eog neu sewin dan amgylchiadau amheus – oni fedrwch brofi bod gennych feddiant cyfreithlon y pysgodyn.

Dan y Ddeddf Lladrad 1968 mae'n drosedd:

- pysgota heb ganiatâd perchennog y tir.

4.9 Morloi

Ym Mhrydain, gan ymestyn i ddyfroedd tiriogaethol, mae deddfwriaeth benodol yn y Ddeddf Cadwraeth Morloi 1970, yn gwahardd rhai dulliau o ladd morloi, sy'n cynnwys gwenwyn neu arfau tân ac eithrio reiffl. Ni fydd person sy'n cymryd a lladd morlo yn euog o drosedd os cymerir morlo anabl i ddibenion ei drin ac yna ei ddychwelyd i'r gwyllt ar ôl triniaeth, neu os lleddir y morlo yn ddamweiniol o ganlyniad i gamau sydd fel arall yn gyfreithiol. Nid yw'n drosedd lladd morlo i ddibenion rhwystro niwed i rwydi pysgota neu offer neu os yw'r morlo wedi ei anafu i'r pwynt lle nad oes gobaith y bydd yn gwella. Mae lladd, anafu neu gymryd morlo llwyd a morlo cyffredin yn y tymor caeëdig yn cael ei wahardd; mae'r tymor caeëdig yn gysylltiedig â'r tymhorau briodol perthnasol.

4.10 Ceirw

Amddiffynnir ceirw gwyllt dan Ddeddf Ceirw 1963 (a ddiwygiwyd gan Ddeddf Ceirw 1991). Mae hyn yn gwahardd cymryd neu ladd ceirw a restrir ar yr Atodlen briodol yn ystod tymor caeëdig y rhywogaeth hwnnw, oni wneir hynny er mwyn rhwystro dioddefaint carw wedi ei anafu neu ag afiechyd, neu i rwystro niwed i gnydau, llyisiau, ffrwyth, pren sy'n tyfu neu unrhyw eiddo tir arall. Gellir ond ymgymryd â hyn gan berson ag awdurdod neu bersonau sydd â chaniatâd y trefeddiannwr neu'r deiliad i fynd ar y tir. Gwaherddir cymryd neu ladd ceirw yn yr awr gyntaf ar ôl machlud a'r awr olaf ar ôl i'r haul godi, ynghyd â dulliau penodol o gymryd neu ladd; mae'r rhain yn cynnwys defnyddio maglau, rhwydi, gwenwyn neu abwyd neu rwydau. Gwaherddir rhai arfau i ladd neu gymryd ceirw, sef saethau, gwaywffyn neu unrhyw afrau tanio a bwledi sydd wedi eu rhestru yn yr Atodlen berthnasol. Ni fydd person wedi cyflawni trosedd os defnyddir yr arfau i rwystro dioddefaint carw sydd wedi ei anafu neu ag afiechyd. Gellir awdurdodi'r gweithredoedd a waherddir gan y deddfwriaeth gan drwydded a roddir gan yr awdurdod priodol.

4.11 Planhigion gwyllt

Mae adran 13 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) yn gwahardd unrhyw berson rhag hel, dadwreiddio neu ddinistrio planhigion gwyllt yn fwriadol fel y rhestrir yn Atodlen 8, ac mae'n drosedd gwerthu planhigion gwyllt o'r fath. Mae'r deddfwriaeth hefyd yn gwahardd dadwreiddio planhigion gwyllt nad ydynt wedi eu rhestru yn yr Atodlen, oni fo'r dadwreiddio'n cael ei wneud gan berchennog neu ddeiliad y tir neu gan rywun sydd wedi cael eu caniatâd i wneud hynny, neu oni fo'r weithred wedi ei hawdurdodi gan yr awdurdod lleol priodol, er nad yw awdurdod o'r fath yn rhoi hawl i fynd ar y tir.

Gellir caniatáu dadwreiddio, hel neu niweidio planhigion amddiffynedig dan drwydded i ddibenion gwyddoniaeth, addysg, cadwraeth a ffotograffiaeth, neu i warchod iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd, neu i rwystro lledaeniad afiechyd, neu i ddibenion rhwystro niwed

difrifol i dda byw, cnydau, tyfu pren neu fath arall o eiddo, neu bysgodfeydd. Gellir caniatáu gwerthu planhigion o'r fath hefyd, dan drwydded, a rhaid ei chael gan yr awdurdod priodol.

Mae deddfwriaeth Ewropeaidd hefyd yn amddiffyn rhai rhywogaethau a thra nad oes ychwanegiad i'r rhai a restrir yn Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, mae casglu, neu dorri rhai planhigion gwyllt, yn ychwanegol at hel, dadwreiddio, dinistrio, gwerthu neu gludo planhigion gwyllt o'r fath hefyd wedi ei wahardd.

4.12 Rhywogaethau goresgynnol heb fod yn gynhenid

Mae adran 14 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) yn delio â throseddau'n ymwneud â chyflwyniad rhywogaethau goresgynnol heb fod yn gynhenid (INNS) a restrir yn Atodlen 9 y Ddeddf. Dan y ddeddfwriaeth mae'n drosedd:

- gwerthu, cynnig ar werth neu arddangos ar werth; bod â meddiant neu gludo i ddibenion gwerthu unrhyw anifail neu blanhigyn sydd wedi ei restru yn Atodlen 9 neu unrhyw beth o'r hwn y gellir atgynhyrchu anifail neu blanhigyn o'r fath;
- cyhoeddi neu achosi cyhoeddi unrhyw hysbyseb sy'n debygol o gael ei ddeall fel hysbyseb sy'n cyfleu bod person yn gwerthu neu'n prynu neu'n bwriadu gwerthu neu brynu unrhyw anifail neu blanhigyn a restrir yn atodlen 9 y ddeddf neu unrhyw beth o'r hwn y gellir atgynhyrchu anifail neu blanhigyn o'r fath;
- rhyddhau neu ganiatáu i unrhyw anifail ddianc i'r gwyllt os yw o fath nad yw fel rheol yn breswyl ym Mhrydain neu'n ymwelydd rheolaidd â Phrydain yn y cyflwr gwyllt; neu sydd wedi ei gynnwys yn Atodlen 9;
- plannu neu achosi i dyfu fel arall yn y gwyllt unrhyw blanhigyn a gynhwysir yn Atodlen 9.

4.13 Rhywogaethau eraill a warchodir

Mae llawer o rywogaethau eraill yn cael eu gwarchod yr un fath â mamaliaid o dan y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) a Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'i diwygiwyd). Mae'r rhain yn cynnwys llawer o rywogaethau o ieir bach yr haf a gwyfynod, chwilod, pryfed cop a llawer o infertebratau morol. Mae hyn yn golygu yn gyffredinol ei bod yn drosedd i achosi dioddefaint bwriadol a diangen iddynt.

5. Gwybodaeth bellach a manylion cyswllt

Mae rhagor o wybodaeth am rywogaethau a warchodir ar gael gan y sefydliadau canlynol:

Cyfoeth Naturiol Cymru

<http://naturalresourceswales.gov.uk/our-work/policy-advice-guidance/protected-species-wales/?lang=en>

Cofnod (Canolfan Cofnodion Amgylcheddol Gogledd Cymru)

www.cofnod.org.uk

Os ydych yn chwilio am ecolegydd proffesiynol i gynnal arolwg o rywogaethau a warchodir, gallwch ddod o hyd i fanylion am ymgynghorwyr sy'n gweithio yn lleol yn y Rhestr Gyswllt Ymgynghorwyr Ecolegol, sydd ar gael o:

Rhywogaethau a Warchodir yn Sir Ddinbych
Fersion 1: Awst 2014

<https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswylwr/rheoliadau-cynllunio-ac-adeiladu/cynllunio/bioamrywiaeth.aspx>

Gellir cysylltu â staff bioamrywiaeth Cyngor Sir Ddinbych am ragor o wybodaeth neu i drafod anghenion ar gyfer ceisiadau cynllunio:

Rhif Ffôn: 01824 708263

E-bost: biodiversity@denbighshire.gov.uk